**Lesley Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Local Government and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-535
Ein cyf/Our ref LG/00478/14

William Powell AC
Aelod Cynulliad Canolbarth a Gorllewin Cymru
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

committeebusiness@Wales.gsi.gov.uk
Stephen.George@wales.gov.uk

3 Mehefin 2014

Annwyl Bill

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Ebrill ynglŷn â'r ddeiseb a dderbyniwyd oddi wrth Jonathan Edwards i amddiffyn Awdurdodau Tân ac Achub Cymru rhag toriadau sylweddol yn eu cyllideb.

Mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru i gyd yn wynebu heriau sylweddol o ran y rhagolygon ariannu yn y dyfodol, yn dilyn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant a'r toriadau yng ngwariant Cyllideb y DU yn ddiweddar. Mae'n ofynnol felly fod yr Awdurdodau Tân ac Achub yn mynd ati i gynllunio eu gwasanaethau a'u harian mewn ffordd bendant a radical er mwyn alinio gwasanaethau cyhoeddus yn gyflym â'r gostyngiad yn lefel yr adnoddau a fydd ar gael yn ôl pob tebyg.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cryn dipyn o gyllid grant canolog i'r Awdurdodau Tân ac Achub yn ychwanegol at y cyllid craidd y maent yn ei gael oddi wrth yr Awdurdodau Lleol.

Yn 2013-14, roedd y swm a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn dod i gyfanswm o £26 miliwn ac roedd yn cynnwys:

- Dros £3.5 miliwn i gefnogi diogelwch tân cymunedol
- £4 miliwn i gefnogi cadernid cenedlaethol - system gyfathrebu radio Firelink a Dimensiwn Newydd)
- £18.5 miliwn o grant "atodol" ar gyfer cyfraniadau cyflogwyr tuag at bensiynau diffoddwyr tân

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.lesley.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Nid yw cyllidebau cyffredinol Awdurdodau Tân ac Achub Cymru wedi gostwng yn sylweddol hyd at 2013-14. Cyhoeddir gwybodaeth am 2014-15 yng nghanol mis Mehefin 2014. Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub hefyd yn cael arian at ddibenion buddsoddi cyfalaf a chânt eu hannog i ddefnyddio'r arian hwn i wella gwasanaethau ar gyfer y dyfodol.

Daw'r rhan fwyaf o gyllid Awdurdodau Tân ac Achub Cymru o ardoll a godir ar yr Awdurdodau Lleol ym mhob ardal. Mater yw hi felly, i Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Lleol weithio gyda'i gilydd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb flynyddol, i gytuno ar lefel briodol o gyllid sy'n cefnogi blaenoriaethau lleol ar gyfer diogelwch cymunedol a'r gallu i ymateb i sefyllfaoedd.

Yn gywir

Lesley

**Lesley Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Minister for Local Government and Government Business